

Diweddariadaur wythnos o WCVA

22 Gorffennaf 2019

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Mae dwy ffrwd ariannu newydd gan Comic Relief a Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi agor heddiw. Nod [Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru](#) yw cefnogi mudiadau cymunedol i adeiladu eu gallu eu hunain mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol. Mae'r grantiau'n amrywio o £1,000 i £60,000 ac ar gael i fudiadau sydd ag incwm o dan £250,000.

Ein Rheolwr Llywodraethu a Diogelu, Mair Rigby, sy'n hen law ar lywodraethu, yw arweinydd [Ennyn Effaith yng Nghymru](#). [Yn y blog hwn](#), mae'n mynd i'r afael â'r 3 rhwystr mwyaf yn y broses mesur effaith.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

3 ffordd y gall mesur effaith fod yn haws

Mae Mair Rigby, arweinydd Ennyn Effaith ar gyfer Cymru yn WCVA, yn siarad ynghylch llawer o faterion sy'n wynebu mudiadau pan mae'n dod i fesur effaith.

Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi – Grantiau Sylfaen ar gyfer Cynnal a Chadw

Mae'r Rhaglen Grantiau Sylfaen yn cynnig grantiau rhwng £500 a £3,000 tuag at waith brys o ran cynnal a chadw ac atgyweiriadau bach mewn Eglwysi sydd wedi'u dynodi'n flaenoriaeth uchel.

Cyllid diweddaraf

Hospice UK - Breathe Easy

Mae grantiau hyd at £40,000 ar gael i gefnogi prosiectau sydd ar waith am gyfnod o 18 mis.

Ymddiriedolaeth Ford Britain

Mae grantiau bach hyd at £250 a grantiau mawr rhwng £250 a £3,000 ar gael.

Cronfa Gymunedol Comic Relief

Dwy ffrwd gyllido newydd o Gronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru i gefnogi mudiadau dan arweiniad y gymuned.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Goruchwylio, cefnogi a datblygu staff

Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i reolwyr llinell yn y trydydd sector, wedi'i hardystio gan ILM.

[09, 10 Hydref a 05 Tachwedd 2019, Caerdydd](#)

Polisi a prosiectau

Nid yw'r Gronfa Gofal Integredig yn gwireddu ei photensial, yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol

Ffrwd ariannu gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Gofal Integredig i annog a galluogi gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i weithio mewn ffordd integredig.

Ymgynghoriadau'r wythnos hon

Cyfle i ddweud eich dweud ar y Gyllideb ddrafft.

Volunteering news

Gwobr Diana yng Nghymru

Cynhaliwyd y wobwr eleni ddydd Llun 15 Gorffennaf yn y Senedd.